

| <b>Targedau</b>                                                                                                     | <b>Sut rydych wedi gweithio ar hwn?</b>                                                                                                       | <b>Ceir enghraifft ar</b>                                   |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|
| <b>Targed 1:</b><br>Parhau i ddefnyddio theori i ddylanwadu ar dy arfer wrth i ti ddechrau ar dy yrfa fel athrawes. | Defnyddiais i Google Scholar a llyfrgell ar-lein y brif ysgol er mwyn casglu a chynnwys theori a fydd yn addas ac yn berthnasol i'r aseiniad. | Ceir enghraifft yn ystod trafodaeth adolygiad llenyddiaeth. |
| <b>Targed 2:</b><br>Prawf ddarllen i osgoi anghywirdebau ysgrifenedig (e.e. treigladau).                            | Defnyddiais y meddalwedd Cysill yng nghyson trwy gydol ysgrifennu'r aseiniad er mwyn ceisio cywiro unrhyw wallau sillafu a threiglo.          | Gwelir defnydd o Cysill trwy gydol yr aseiniad.             |

## **Elfen 2:**

**Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun**

**Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n**

**feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r**

**sylfaen dystiolaeth.**

## **Rhagarweiniad**

Pwrpas yr aseiniad yw adfyfrio yn feirniadol ar un agwedd penodol a nodir yn gynllun datblygiad fy hysgol PAP 3. Bwriedir ymchwilio am lenyddiaeth a fydd yn cyfoethogi ac yn herio'r hyn a nodir yn y cynllun datblygiad. Bwriedir ffocysu ar flaenoriaeth yr ysgol i geisio datblygu a gwella safonau mathemateg a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol. Penderfynais i ffocysu ar yr agwedd hon er mwyn dyfnhau fy nealltwriaeth fathemategol yng nghyd-destun addysg. Nid ydwyf yn hynod o hyderus wrth ddysgu ac addysgu mathemateg felly gobeithiaf bydd yr hyn a ddarllenwyd yn ystod yr aseiniad yn fy nghynorthwyo yn fy nhaith broffesiynol. Bwriedir adfyfrio yn feirniadol ar Gynllun Datblygu fy ysgol PAP 3 yn ystod yr aseiniad. Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog a sefydlwyd mewn ardal drefol Abertawe felly mae gan yr ysgol dalgylch weddol eang (Estyn, 2013). Mae gan yr ysgol tua 340 o ddisgyblion rhwng yr oedran 3-11 gan gynnwys 65 disgybl yn y meithrin. Yn ogystal mae tua 42% o ddisgyblion yn deillio o gartrefi sydd yn siarad Cymraeg. Yn yr un modd nodir bod 11% o ddisgyblion wedi eu cofrestru ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol (Estyn, 2022).

## **Adolygiad Llenyddiaeth**

Yn ôl canllawiau BERA (2017) mae'n angenrheidiol bod yr ymchwilydd yn cymryd pob cam posib i geisio sicrhau cyfrinachedd ac anhysbysrwydd eu cyfranogwyr er mwyn osgoi unrhyw niwed. Bwriedir felly gyfeirio at fy hysgol PAP 3 fel ysgol A yn ystod yr aseiniad er mwyn sicrhau cyfrinachedd ac anhysbysrwydd.

Diffiniwyd Llywodraeth Cymru (2014) Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) fel dogfen a chynlluniwyd gan ysgolion yn dilyn broses o hunan-adfyfrio a gwerthuso sydd yn

ffocysu ar ddatblygu agweddau penodol yn yr amgylchedd ysgol. Nodir bod amryw o bobl megis aelodau staff yr ysgol, llywodraethwyr a rhieni yn cyd-weithio fel cymuned er mwyn llunio targedau a blaenoriaethau cyraeddadwy er mwyn datblygu disgyblion, staff ac yr ysgol gyfan. Noda theori system ecolegol Bronfenbrenner (1979) mae datblygiad yn nodwedd biolegol sydd ym mhob plentyn ond er mwyn profi datblygiad effeithiol mae'n angenrheidiol bod yr amgylcheddau a systemau gwahanol sydd yn amgylchynu'r plentyn yn gydweithio i hybu a chyfeirio'r datblygiad (Paquette a Ryan, 2001). Mae rhyngweithio yn agwedd naturiol mewn bywyd sydd yn effeithio ar ein datblygiad personol a rhyngweithiadau mewn gwahanol gyd-destunau. Nid oes modd datgan bydd pob rhyngweithiad yn profi effaith mawr ar ddatblygiad pe bai'r rhyngweithiad megis rhwng yr ysgol a rhieni ond yn digwydd ar brin achlysuron. Dadleua Neal a Neal (2013) er mwyn modelu a strwythuro datblygiad plentyn mewn modd effeithiol mae'n holl bwysig i'r unigolion dylanwadol mewn bywyd plentyn i arddangos patrwm cyffredin o ryngweithio (Neal a Neal, 2013, t. 727). Awgrymir er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddatblygu disgyblion mae'n allweddol bwysig bod cymuned eang o bobl megis yr ysgol, llywodraethwyr a rhieni yn cydweithio am adeg barhaol er mwyn lles y disgyblion.

Defnyddir y CDY fel dogfen fyw sydd yn galluogi aelodau staff yr ysgol a rhanddeiliaid i ddefnyddio'r CDY er mwyn datblygu a gwella eu gwaith er mwyn lles y disgyblion (EA Bookings, 2019). Cyn cychwyn ar y broses cynllunio mae'n angenrheidiol bod ysgolion yn cynnal hunanwerthusiad beirniadol a fydd yn llunio eu CDY. Mae'r hunanwerthusiad yn rhan annatod o'r broses datblygu CDY oherwydd heb y gwerthusiad nid oes modd gynllunio'n effeithiol. Noda Llywodraeth Cymru (2023) mae'n holl bwysig bod yr hunanwerthusiad yn feirniadol, yn cynnwys mewnbwn proffesiynol ac yn seiliedig ar gyfuniad ddata. Dadleua Andrade (2009) bod hunanwerthusiad yn ffyrdd ffurfiannol o werthuso wrth i'r unigolyn cymharu eu

gwaith gyda'r canllawiau ar hyn bwriadwyd cyflawni i ddarganfod y cryfderau a gwendidau. Bwriedir ymchwilio ar sut gwnaeth ysgol A defnyddio eu gwybodaeth blaenorol wrth lunio eu CDY.

Nodir yn y rhagarweiniad bwriedir ffocysu ar flaenoriaeth ysgol A i ddatblygu a gwella safonau mathemateg a rhifedd disgyblion yr ysgol gyfan. Yn amlwg bwriad yr ysgol yw datblygu sgiliau mathemategol yr ysgol gyfan ond er mwyn gweld datblygiad mae'n holl bwysig i ddyfnhau ein dealltwriaeth ar sut mae plant yn magu sgiliau mathemategol. Er nid ydynt yn sylweddoli gwelir bod plant yn benodol babanod yn blaenoriaethu eu datblygiad mathemategol heb sylweddoli. Gwelir wrth i blant adeiladau gyda blociau, grwpio yn ôl maint a lliw mae plant yn dechrau arbrofi gyda mathemateg (Harris a Peterson, t. 1-2, 2017). Mae modd ystyried bod babanod a phlant ifanc yn datblygu rhesymeg fathemategol trwy brofi'r cam chwarae synhwyraidd-weithredol. Golygir chwarae synhwyraidd-weithredol bod plant yn datblygu dealltwriaeth o'r amgylchedd trwy gyfuno'r synhwyrau a gweithrediad symud (McLeod, 2023). Mae'r defnydd o chwarae synhwyraidd-weithredol yn galluogi disgyblion i ddatblygu storfa o gysylltiadau rhwng patrymau gweithrediad gyda phatrymau mathemategol (Sarama a Clements, t. 318, 2009). Un enghraifft yw disgybl yn adeiladu twr gan ddefnyddio blociau yn gwneud cysylltiad gyda phatrymau lliw neu siâp.

Er mwyn gweld datblygiad yn sgiliau rhifedd a mathemateg disgyblion mae'n bwysig i gynnal amgylchedd addas ar gyfer mathemateg a fydd yn hybu meddwl rhesymegol ynglŷn a rhifedd (Aunio et al, t. 3, 2015). Gwelir datblygiad yn feddyliau mathemategol dysgwyr wrth iddyn nhw ddatblygu amryw o sgiliau yn bennaf sgiliau gwybyddol, meddwl a rhesymu. Mae'r sgiliau yma yn galluogi i ddisgyblion i gwneud synnwyr a darganfod patrymau yn fathemateg a fydd yn eu cynorthwyo yn eu

datblygiad. Dadleua Skemp (2012) ni fydd disgyblion yn profi datblygiad yn eu sgiliau mathemategol os nad ydy'r dull dysgu ac addysgu yn caniatáu i'r ddisgybl defnyddio eu deallusrwydd. Nodir bod mathemateg yn gyfoethogi ein ymennydd gan eu bod yn datblygu ein gallu i feddwl (Skemp, t. 7, 2012). Awgrymir bod dysgu ac addysgu mathemateg yn broses sydd yn herio'r ymennydd gan eu bod yn cyfuno'r defnydd o amryw sgiliau gwybyddol megis llythrennedd a rhifedd. Awgryma Salminen et al (2021) bod y broses o datblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd yn un rhyng-gysylltiedig gan gwelir rhwng 30-70% o ddisgyblion sydd yn brofi trafferthion mathemateg yn brofi trafferthion llythrennedd. Mae datblygu sgiliau mathemateg a rhifedd yn broses cymhleth gan eu bod yn cynnwys amryw o nodweddion ond mae'n bwysig i gofio bod sgiliau rhesymu a meddwl wrth wraidd y datblygiad.

## **Datblygu pwynt gweithredu**

Yn amlwg mae'r broses cynllunio CDY yn un cymhleth a hir gan bod yna llawer o nodweddion sydd yn anghenrheidiol i'r broses. Y cam cyntaf o gychwyn ar y broses cynllunio yw i'r ysgol cynnal hunanwerthusiad. Pwrpas hunanwerthuso yw i geisio gwella a ddatblygu ein cyflawniadau trwy hybu hunan-reoli ein gwaith academiaidd (Andrade a Valtcheva, t. 13, 2009). Yng nghyd-destun ysgol A gwnaethon nhw hunanasesu yn feirniadol er mwyn darganfod yr agweddau sydd angen datblygu yn yr ysgol er mwyn manteisio'r disgyblion. Mae hunanwerthusiad effeithiol yn galluogi i'r unigolyn gweld sut mae eu perfformiad academiaidd yn gymharu i'r safonau allanol ac yna defnyddio'r adborth a dderbyniwyd er mwyn datblygu ymhellach (Harris a Brown, 2018). Bydd ysgol A yn defnyddio'r hyn a ddarganfyddir yn yr hunanwerthusiad a'i gymharu i ddogfennau pwysig megis Cwricwlwm i Gymru a'r pedwar diben er mwyn asesu ble maen nhw ar hyn o bryd a ble sydd angen iddyn

nhw ddatblygu. Er bod hunanwerthuso yn ddull defnyddiol wrth asesu nid oes modd ddatgan eu bod yn ddull hynod o effeithiol. Mae'r broses o hunanwerthuso yn broses hir gan fod angen casglu data, tystiolaeth a chynnig adborth (Tunnell, 2021). Er nodir bod y dull asesu yn broses hir a chymhleth maent yn galluogi'r ysgol i gynnal asesiad dwfn ac arddangos arfer da.

Yn ystod y broses asesu bydd dadansoddi data yn allweddol bwysig wrth hunanasesu. Bwriad dadansoddiad data yw cael mewnwelediad i berfformiad disgyblion tu fewn i gwricwlwm yr ysgol er mwyn dehongli beth yw'r cryfderau a gwendidau o'r cwricwlwm a strategaethau dysgu ac addysgu (Washington State University, 2023). Bydd ysgolion yn dadansoddi dwy fath o ddata sef data meintiol a data ansoddol wrth iddyn nhw gasglu gwaith dysgwyr, profion statudol ac unrhyw ddata defnyddiol. Mae data meintiol yn cyfeirio at ddata craidd sydd yn cynnig ystadegau megis profion statudol a phrofion ysgol. Mae data meintiol yn cynnig trosolwg o'r pwnc a bwriedir ymchwilio ar raddfa fawr a ddwfn (Kelle, t. 309, 2006). Gwelir wrth i ysgol A chasglu profion statudol mathemateg yr ysgol gyfan maent yn dangos y darlun mawr ar berfformiad yr ysgol gyfan gan ystyried eu cryfderau a gwendidau. Casglwyd data ansoddol trwy gynnal cyfweiliadau neu dosbarthu holiaduron yn casglu barn a teimladau unigolion er mwyn dyfnhau mewnwelediad yr ymchwilydd (Uk Data Service, 2023). Mae'n bosib bydd ysgol A yn cynnal cyfweiliadau neu trafodaethau anffurfiol gyda rhanddeiliaid er mwyn casglu barn oddi wrth grŵp eang o bobl. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i ddyfnhau eu dealltwriaeth ymhellach a chynnwys y rhanddeiliaid yn y broses asesu. Serch hyn, nid oes modd ddatgan bod data ansoddol yn hynod o ddefnyddiol. Noda Rahman (2017) bod ymchwilydd yn wynebu trafferthion wrth dehongli a dadansoddi data ansoddol a gall effeithio ar eu defnyddiolrwydd. Bydd pob aelod o staff yr ysgol yn dehongli data

ansoddol yn wahanol, mae'n heriol felly i ddod i gasgliad ar ddata pe bai pob aelod yn anghytûn yn eu diffiniad.

Nid ydy'r ysgol yn unig sydd wrth wraidd y broses gynllunio gan bod amryw eang o randdeiliaid megis llywodraethwyr yn cael eu cynnwys y broses. Diffiniwyd 'rhanddeiliaid' fel unigolyn neu grŵp o bobl gyda'r diddordeb o weld sefydliad yn perfformio ac yn cyrraedd eu targedau (Department of Education, 2009, t. 4). Bydd ysgol A wedi cysylltu gyda pobl o fewn y cymuned megis rhieni a llywodraethwyr er mwyn ceisio cynnwys eu barn nhw wrth gynllunio CDY. Noda Stosich a Bae (2018) bod rhyngweithiad parhaol gyda rhanddeiliaid yn allweddol bwysig wrth geisio cryfhau ac addasu polisiau a chynlluniau ysgol. Gwelir bod rhanddeiliaid yn cynnig fwy o hyblygrwydd a chyfrifoldeb yn y broses astudio wrth iddyn nhw leisio dyheadau a newidiadau hoffwn y cymuned weld (Stosich a Bae, 2018, t. 8). Golygir bod rhanddeiliaid yn cynnig persbectif newydd sydd yn ffocysu a'r mewnwelediad cymunedol ac nad ydynt yn gor-ffocysu ar ystadegau ond yn ffocysu ar ddatblygiad cymunedol yr ysgol. Gan fy mod yn ffocysu ar flaenoriaethu sgiliau mathemategol dysgwyr bydd ysgol A wedi penderfynu cynnwys llywodraethwyr lleol yn ystod y broses CDY.

Mae'r camau a phrofwyd er mwyn cynllunio CDY effeithiol ac addas yn cael eu hystyried fel proses cynllunio strategol. Pwrrpas y broses cynllunio strategol yw diffinio eu gweledigaeth, blaenoriaethau ar gamau bwriedir cymryd er mwyn profi datblygiad a llwyddiant yn eu weledigaeth (Bigelow, 2023). Gwelir wrth i ysgol A cynllunio yn strategol maent yn eu galluogi iddyn nhw feddwl yn feirniadol ac yn realistig o'r targedau bydd yr ysgol gyfan yn cyrraedd mewn amser penodol. Noda ysgol A yn eu CDY bwriadwyd gweld datblygiad cadarnhaol yn sgiliau mathemateg a rhifedd dysgwyr erbyn diwedd tymor flwyddyn 2023. Nid oes modd datgan bod

cynllunio strategol yw'r dull fwyaf addas ac effeithiol wrth gynllunio CDY gan eu bod yn ffocysu ar wendidau a phryderon ysgol yn unig. Er mwyn gweld newid a datblygiad strategol mae'n bwysig i nid yn unig newid gofyniadau ond addasu'r categoriadau cyfan (Mintzberg, 1994, t. 109). Yng nghyd-destun ysgol A mae'n bwysig i beidio ffocysu ar newid ar gyfer y maes dysgu mathemateg ysgol ond addasu'r cwrwllwm mathemateg er mwyn buddio'r disgyblion a'r ysgol.

Bydd modd asesu effaith y CDY gan gasglu profion statudol mathemateg dysgwyr yn ogystal â chynnal profion dosbarth. Mae ysgol A yn blaenoriaethu datblygiad mathemateg a rhifedd pob dysgwyr felly bydd angen i'r athrawon addasu ac arbrofi gyda gwahanol strategaethau dysgu ac addysgu. Bydd modd cymharu'r profion newydd gyda'r hen brofion er mwyn gweld a ydy newid strategaethau dysgu ac addysgu yn effeithio'n bositif ar ddysgwyr.

## **Adfyfrio a gwerthuso**

Yn dilyn y broses hunanwerthuso cynlluniwyd ysgol A CDY eithaf manwl gan nodi tair blaenoriaeth bwriedir datblygu yn ystod y flwyddyn academiaidd. Awgryma Fisher et al (2018) mae rhyngweithio ystyrlon yn arwain at athrawon yn rhannu eu gweledigaethau, barn a phrofiad am berfformiad yr ysgol er mwyn elwa'r disgyblion. Gwelir wrth i ysgol A gweithio fel un dim cynlluniwyd yn fanwl gywir trwy nodi camau gweithredu penodol er mwyn profi llwyddiant. Sylweddolir ysgol A bod angen datblygu safonau mathemateg a rhifedd dysgwyr felly noda yn drylwyr yn y CDY meini prawf llwyddiant gan nodi'r camau gweithredu a phwy sydd yn gyfrifol am oruchwylio hyn. Er mwyn sicrhau llwyddiant mae'n allweddol bwysig bod staff yr ysgol yn rhannu'r un weledigaeth, cydweithio fel staff a fydd yn hwyluso strategaethau gwahanol staff (OECD, 2009, t. 101). Serch hyn nid ydy'r CDY yn

cyfeirio at unrhyw ystadegau perthnasol sydd yn nodi ble mae dysgwyr ar hyn o bryd a ble bwriadwyd datblygu cyn yr haf. Mae'r CDY ond yn gyfeirio yn fras at yr angen i ddatblygu safonau mathemateg dysgwyr heb cynnig unrhyw cyd-destun i rhandeiliaid posib a fydd yn darllen y CDY. Mae'n bosib felly i gynnwys atodiad fras a fydd yn gynnig cyfuniad o dystiolaeth a ffigyrau er mwyn lunio sefyllfa datblygiad dysgwyr er mwyn rhannu l'r rhanddeiliaid.

Noda ysgol A yn eu CDY bod nad ydy nhw'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr CA2 cymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm. Gwelir bod mathemateg a rhifedd yn sgil trawsgwricwlaidd gorfodol yn Gwricwlwm i Gymru ac mae gan ymarferwyr megis athrawon y cyfrifoldeb o ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2022). Awgrymir cynllunio gweithgareddau trawsgwricwlaidd a fydd yn annog disgyblion i ddefnyddio eu sgiliau cymhwyso ar draws y meysydd dysgu a phrofiad megis casglu a mesur brigau yn yr awyr agored neu adeiladu twr ac amrywio'r taldra. Er mwyn galluogi hyn maent yn bwysig bod aelodau staff yr ysgol yn ymchwilio mewn i wahanol dechnegau dysgu ac addysgu a cheisio cynnig gwahanol amgylcheddau yn eu gwersi mathemateg. Mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnig gwahanol profiadau bywyd ble bydd dysgwyr yn cymhwyso eu sgiliau rhifedd ac yn ehangu eu dealltwriaeth rhifedd (Moffett, 2011, t. 280).

## **Casgliad**

I grynhoi'r aseiniad nodir bod ysgol A wedi profi proses hir o gynllunio wrth ddadansoddi'n drylwyr ac asesu parhaol. Gwelir bod cynllunio CDY yn gymhleth ac yn cymryd cymuned o bobl weithgar er mwyn cynllunio CDY effeithiol ar gyfer dysgwyr. Nodir nid ydy profion gwir yn arddangos gallu disgyblion gan nid oes yna

digon o gyfleoedd i ddysgwyr yn enwedig dysgwyr CA2 i gymhwyso eu medrau rhif. Yn ystod yr aseiniad dysgais i fod disgyblion yn dechrau'r broses dysgu mathemateg a rhifedd ar ddamwain. Gwelir bod chwilfrydedd plant i adeiladu a chwarae yn cychwyn eu datblygiad mathemategol a gyda chymorth oedolyn mae modd modelu arfer da. Er bod disgyblion yn profi dechreuad positif gyda mathemateg a rhifedd gwelir bod amryw o ffactorau megis diffyg hunan hyder a diffyg defnydd deallusrwydd yn amharu eu datblygiad. Bwriadaf ddefnyddio'r gwaith ymchwil a'r aseiniad i geisio paratoi a llunio strategaethau ac adnoddau a fydd yn targedu datblygiad mathemateg a rhifedd. Mae'n holl bwysig i gynnal adnoddau sydd yn galluogi disgyblion i feddwl, defnyddio eu sgiliau rhesymu ac ennyn eu diddordeb er mwyn gweld gwellhad yn eu sgiliau.

## **Rhestr Cyfeirnod**

Andrade, H. and Valtcheva, A. (2009) 'Promoting Learning and Achievement Through Self-Assessment', *Educational Theory and Practice Faculty Scholarship*, 1.

Ar gael yn:

[https://scholarsarchive.library.albany.edu/cgi/viewcontent.cgi?referer=&httpsredir=1&article=1011&context=etap\\_fac\\_scholar#:~:text=Self%2Dassessment%20is%20a%20core,increase%20\(Schunk%2C%202003\)](https://scholarsarchive.library.albany.edu/cgi/viewcontent.cgi?referer=&httpsredir=1&article=1011&context=etap_fac_scholar#:~:text=Self%2Dassessment%20is%20a%20core,increase%20(Schunk%2C%202003)). (Cyrchwyd: 8 Mai 2023)

Aunio, P. et al (2015) 'The development of early numeracy skills in kindergarten in low-, average- and high-performance groups', *Journal of Early Childhood Research*,

<https://journals.sagepub.com/doi/epub/10.1177/1476718X14538722> (Cyrchwyd: 10 Mai 2023)

Bigelow, S.J. (2023) *What is strategic planning?*. Ar gael yn: <https://www.techtarget.com/searchcio/definition/strategic-planning#:~:text=Strategic%20planning%20is%20a%20process,can%20reach%20its%20stated%20vision>. (Cyrchwyd: 15 Mai 2023)

EA Bookings (2019) *Every School a Good School: School Development Planning*. Ar gael yn: <https://www.easds.org.uk/userfiles/every-school-a-good-school-school-development-planning-guidance-2010-english-version.pdf> (Cyrchwyd: 7 Mai 2023)

Estyn (2013) *Inspection report* [REDACTED]. Ar gael yn:  
[https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Inspection%2520report%2520Y.G.G.%2520Pontardawe%25202013\\_0.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf](https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Inspection%2520report%2520Y.G.G.%2520Pontardawe%25202013_0.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf) (Cyrchwyd: 7 Mai 2023)

Harris, B. and Peterson, D. (2017) 'Developing Math Skills in Early Childhood', *Mathematica Policy Research*, tt. 1-6. Ar gael yn:  
<https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED587415.pdf> (Cyrchwyd: 10 Mai 2023)

Mintzberg, H. (1994) 'The Fall and Rise of Strategic Planning', *Harvard Business Review*. Tt. 107-114. Ar gael yn:

<https://libroweb.alfaomega.com.mx/book/385/free/data/Materiales/Capitulo01/TheFallAndRiseOfStrategicPlanning.pdf> (Cyrchwyd: 15 Mai 2023)

Moffet, P.V. (2011) 'Outdoor mathematic trails: an evaluation of one training partnership', *Education 3-13: International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education*, volume 39, issue 3, tt. 277-287. Ar gael yn:

<https://www.tandfonline.com/doi/epdf/10.1080/03004270903508462?needAccess=true&role=button> (Cyrchwyd: 15 Mai 2023)

Fisher, D. et al. (2018) *The Teacher Clarity Playbook: A Hands-On Guide to Creating Learning Intentions and Success Criteria for Organized, Effective Instruction*. California: Corwin Press.

Harris, L.R. and Brown, G.T.L. (2018) *Using Self-Assessment to Improve Student Learning*. Oxfordshire: Routledge

Kelle, U. (2006) 'Combining qualitative and quantitative methods in research practice: purposes and advantages', *Qualitative Research in Psychology*, vol 3, issue 4, tt. 293-311. Ar gael yn:

<https://www.tandfonline.com/doi/epdf/10.1177/1478088706070839?needAccess=true&role=button> (Cyrchwyd: 13 Mai 2023)

Llywodraeth Cymru (2014) *School development plans*. Ar gael yn:

<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/school-development-plans.pdf> (Cyrchwyd: 7 Mai 2023)

Llywodraeth Cymru (2023) *Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer*

*gwerthuso, gwella ac atebolrwydd*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/canllawiau-gwella-ysgolion-fframwaith-ar-gyfer-gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/> (Cyrchwyd: 8 Mai 2023)

Llywodraeth Cymru (2022) *Fframwaith sgiliau trawsgwricwlaidd*. Ar gael yn:

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-sgiliau-trawsgwricwlaidd/#trosolwg> (Cyrchwyd: 15 Mai 2023)

McLeod, S. (2023) *Piaget's Sensorimotor Stage Of Cognitive Development*. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/sensorimotor.html> (Cyrchwyd: 11 Mai 2023)

Neal, J.W. and Neal, Z.P. (2013) 'Nested or Networked? Future Directions for Ecological Systems Theory', *Social Development*, vol 22, issue 4, tt. 641-863.

OECD (2009) *Creating Effective Teaching and Learning Environments: First Results from TALIS*. Washington :OECD Publishing

Paquette, D. and Ryan, J. (2001) *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*. Ar gael yn:  
<https://onedrive.live.com/edit.aspx?resid=9EA7EF46F291D026!2848&cid=9ea7ef46f291d026&CT=1683804031850&OR=ItemsView> (Cyrchwyd: 8 Mai 2023)

Rahman, M.S. (2017) 'The Advantages and Disadvantages of Using Qualitative and Quantitative Approaches and Methods in Language "Testing and Assessment" Research: A Literature Review', *Journal of Education and Learning*. Ar gael yn:  
<https://pearl.plymouth.ac.uk/bitstream/handle/10026.1/16598/EJ1120221.pdf?sequence=1&isAllowed=y> (Cyrchwyd: 13 Mai 2023)

Sarama, J. and Clements, D.H. (2009) 'Building Blocks and Cognitive Building Blocks: Playing to Know the World Mathematically', *American Journal of Play*, v1(3), tt. 313-337. Ar gael yn: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1069014.pdf> (Cyrchwyd: 11 Mai 2023)

Salminen, J. et al (2021) 'Development of Numeracy and Literacy Skills in Early Childhood – A Longitudinal Study on the Roles of Home Environment and Familial Risk for Reading and Math Difficulties', *Frontiers in Education*. Ar gael yn:  
<file:///Users/mari-gwenhughes/Downloads/feduc-06-725337.pdf> (Cyrchwyd: 9 Mai 2023)

Skemp, R.R. (2012) *The Psychology of Learning Mathematics*. Oxfordshire: Routledge

Stosich, E.L. and Bae, S. (2018) 'Engaging diverse stakeholders to strengthen policy', *Phi Delta Kappan*, volume 99, issue 8, tt. 8-12. Californias: SAGE Publications.

Tunnel, L. (2021) 'Formative Assessment: Pros and Cons You Need to Know', *Education Advanced* [blog]. 1 Rhagfyr. Ar gael yn:  
<https://educationadvanced.com/resources/blog/formative-assessment-pros-and-cons/> (Cyrchwyd: 13 Mai 2023)

UK Data Service (2023) *Qualitative Data*. Ar gael yn:

<https://ukdataservice.ac.uk/learning-hub/qualitative-data/> (Cyrchwyd: 13 Mai 2023)

Washington State University (2023) *Assessment Data Analysis*. Ar gael yn:

<https://ace.wsu.edu/assessment-measures-and-data/assessment-data-analysis/#:~:text=Assessment%20data%20provide%20a%20means,%2C%20and%20guide%20decision%2Dmaking>. (Cyrchwyd: 13 Mai 2023)